# Strategaeth effaith economaidd a chymdeithasol leol yr Awdurdod Datgomisiynu Niwclear 2020-26

## Drafft ar gyfer Ymgynghori.

IONAWR 2020

# Contents

Strategaeth effaith economaidd a chymdeithasol leol yr Awdurdod Datgomisiynu Niwclear 2020-26 ........ 1

Drafft ar gyfer Ymgynghori. ........ 1

Cyflwyniad a chyd-destun ........ 3

Adran 1 – Cefndir a Dadansoddiad ........ 5

Effeithiau Clystyru neu Gydgrynhoi ........ 6

Adran 2 – Cynllun gweithredu ar gyfer pob safle ........ 8

WEST CUMBRIA – SELLAFIELD A'R STORFA GWASTRAFF LEFEL ISEL ........ 9

DOUNREAY ........ 11

Safleoedd Magnox ........ 12

Gogledd-orllewin Cymru –Wylfa a Thrawsfynydd ........ 12

Yr Alban: HUNTERSTON A ........ 16

Yr Alban: CHAPELCROSS ........ 17

DUNGENESS ........ 18

WINFRITH ........ 19

HARWELL ........ 21

De-ddwyrain Lloegr – Bradwell a Sizewell ........ 22

Adran 3 – Prosiectau unigol ........ 26

Egwyddorion a themâu ........ 28

# Cyflwyniad a chyd-destun

Mae'r Awdurdod Datgomisiynu Niwclear (yr NDA) yn asiantaeth i Lywodraeth y DU sy'n gyfrifol am lanhau 17 o safleoedd niwclear y DU mewn ffordd ddiogel a chosteffeithiol, gan ofalu am bobl a'r amgylchedd. Mae dyletswydd ar yr NDA o dan y Ddeddf Ynni (2004) i roi sylw i effaith ei weithgareddau ar gymunedau sy'n byw'n agos i'w safleoedd. Rhaid i'r NDA sicrhau bod gweithgareddau datgomisiynu yn dod â budd i gymunedau lleol ac yn darparu gwaddol llesol ar ôl cwblhau'r gwaith datgomisiynu. Mae'r strategaeth hon yn ymwneud â'r ddau beth hynny: y buddion o ddatgomisiynu a chreu gwaddol cadarnhaol.

Mae'r strategaeth hon yn canolbwyntio ar ddenu buddsoddi cynaliadwy i'r cymunedau ger ein safleoedd. Yn y strategaeth hon ar gyfer "mewnfuddsoddi", mae dau amcan sy'n ategu ei gilydd – yn gyntaf, bydd economïau iach o gwmpas ein safleoedd yn llai dibynnol ar ddatgomisiynu ac felly'n lliniaru effeithiau'r ergyd i'r economi pan fydd gweithgareddau datgomisiynu yn dod i ben. Yn ail, drwy gael cadwyn gyflenwi leol sy'n iach a chystadleuol, dylai hynny arwain hefyd at lefelau uwch o arloesi a chynhyrchiant ar ein safleoedd. Bydd mewnfuddsoddi yn golygu gwahanol bethau mewn gwahanol safleoedd. Mewn rhai safleoedd, bydd y pwyslais ar arallgyfeirio wrth i'r datgomisiynu ddod i ben. Mewn eraill, gall ein gwaith datgomisiynu fod yn beiriant i dyfu'r economi leol lle bydd cwmnïau, yn enwedig rhai llai, yn manteisio ar y cyfleoedd a geir drwy waith datgomisiynu i symud ymlaen i farchnadoedd a sectorau eraill.

Mae'r strategaeth ddiwygiedig hon yn gyson ag elfennau eraill yng ngwaith yr NDA, yn enwedig ei strategaethau ar gyfer y gadwyn gyflenwi, eiddo a phobl, heb golli'r cysylltiadau ymatebol â chymunedau lleol ar lawr gwlad. Fel un o asiantaethau Llywodraeth, mae angen hefyd i'r NDA roi sylw i bolisïau ehangach Llywodraeth, fel targedau ar gyfer allyriadau di-garbon net, cynaliadwyedd a'r polisi economaidd. Polisi'r Llywodraeth yw "uno a chodi i lefel uwch ledled y Deyrnas Unedig – rhannu cyfleoedd yn decach – gyda gwell seilwaith, addysg ragorol ac uwch-dechnoleg." Mae gwaith crefftus yr NDA, â'i elfennau ymchwil ac uwch-dechnoleg, a'i gwmpas daearyddol eang, yn golygu ei fod mewn lle da i gefnogi'r symudiad hwn ar draws Llywodraeth.


Oherwydd yr effaith fawr o waith yr NDA ar gymunedau lleol, mae gennym uchelgais a mandad i gynyddu budd ein gwaith yn lleol. Er mwyn gwneud hyn, mae angen i'r NDA barhau i gydweithio'n agos â phartneriaid lleol, yn cynnwys Partneriaethau Cyflogaeth Lleol, Cynghorau Lleol ac asiantaethau eraill. Mae hyn yn cynnwys dull mwy gweithredol o ailddefnyddio tir, drwy weithio gyda phartneriaid

a chymunedau lleol i edrych ar gyfleoedd i ailddefnyddio tir sydd wedi'i ddatgomisiynu er mwyn cefnogi uchelgeisiau lleol.

Rydym yn gyflogwr, yn landlord ac yn brynwr nwyddau a gwasanaethau o bwys. Mae gennym gyllideb fawr ar gyfer hyfforddi, ymchwil, trafnidiaeth ac arloesi; a chysylltiadau cryf â llywodraeth, y gadwyn gyflenwi a chymunedau lleol. Mae gennym yr adnoddau yn ogystal â'r ewyllys da sydd eu hangen i gael effaith gadarnhaol mewn cymunedau lleol.

Yn benodol, mae cysylltiadau cryf rhwng anghenion yr NDA am staff medrus a buddiannau'r gymuned ehangach mewn addysg a hyfforddiant. Mae strategaeth gyrfaoedd cynnar yr NDA a'i raglenni ymgysylltu ag ysgolion yn bwysig i'n gwaith ein hunain ond ein nod bob amser oedd gweithio mewn partneriaeth ag eraill. Yr NDA yw un o brif ysgogwyr Grŵp Sgiliau'r Sector Niwclear ac mae'n llwyr gefnogi gwaith y Grŵp ar amrywiaeth, prentisiaethau, symudedd a lleoedd.

# Adran 1 – Cefndir a Dadansoddiad




Mae'r rhan fwyaf o safleoedd yr NDA mewn lleoliadau arfordirol, gwledig a chymharol anghysbell. Rydym yn gyflogwr o bwys yn ein cymunedau ac, mewn rhai ohonynt, ni yw'r prif gyflogwr.

Mae ein gwaith datgomisiynu yn amrywiol ac ar raddfa fawr. Mae nifer o safleoedd, a West Cumbria yn fwyaf penodol, a fydd yn ganolfannau o bwysigrwydd

cenedlaethol ar gyfer deunyddiau niwclear, rheoli gweddillion tanwydd a rheoli gwastraff am flynyddoedd lawer eto. Mewn rhai safleoedd eraill, mae'r gwaith datgomisiynu wedi dod i ben neu fe fydd yn dod i ben yn y degawd nesaf.

Ceir nifer o wahanol effeithiau ar gymunedau lleol o ganlyniad i waith datgomisiynu. Mae nifer ohonynt yn gadarnhaol – gall datgomisiynu greu cyflogaeth grefftus, hirdymor a chyfleoedd rhagorol i gadwyni cyflenwi lleol.

O'i wneud yn dda, dylai gwaith datgomisiynu greu buddion economaidd sylweddol a denu gweithgareddau economaidd gan greu effaith clystyru, fel y'i gelwir, lle bydd yr economi leol yn fywiog.

## Effeithiau Clystyru neu Gydgrynhoi

*Mae theori economaidd yn awgrymu y bydd effeithiau gorlifo cadarnhaol pan fydd gweithgarwch economaidd wedi'i glystyru mewn ardal benodol. Mae'r rhain yn cynnwys costau is am chwilio am lafur a chontractwyr, ffyrdd haws i rannu gwybodaeth ac arbenigedd, mwy o gystadlu lleol a chynhyrchiant uwch. Lle mae clystyrau economaidd yn cael eu sefydlu, bydd cylch rhinweddol yn codi lle mae cystadlu rhwng busnesau'n hybu arloesedd a chynhyrchiant. Yn y pen draw, mae hyn yn golygu y bydd cwmnïau lleol yn gallu cystadlu am waith ar lefel genedlaethol a rhyngwladol. Yn achos gwaith datgomisiynu, mae disgwyl y bydd economïau lleol cryf o gwmpas safleoedd yr NDA yn profi effaith gadarnhaol o ddatgomisiynu fel y bydd pawb ar ei ennill yn yr economi leol.*

Mae datgomisiynu yn creu swyddi a chyfleoedd yn y gadwyn gyflenwi, llawer ohonynt o fewn cyrraedd pobl a chwmnïau sydd wedi'u lleoli'n agos i'n safleoedd. Gall datgomisiynu fod yn fwy effeithlon hefyd o gael marchnad swyddi a sylfaen gyflenwyr leol sy'n gweithredu'n dda.

Er hynny, fe all gael effaith negyddol hefyd, a chreu anawsterau ar ei ôl os na fydd economïau lleol wedi gallu arallgyfeirio cyn i'r gweithrediadau datgomisiynu ddod i ben.

Gall cymunedau ac economïau lleol ddod i ddibynnu ar un cyflogwr mawr lleol, gan ddisodli cyfleoedd eraill o bosibl neu beri i gymunedau fod yn agored i effeithiau ergydion economaidd. Mae risg na fydd rhai rhannau o'r gymuned wedi cael y sgiliau neu'r cyfleoedd sydd eu hangen i gael mantais uniongyrchol neu anuniongyrchol o waith datgomisiynu. Mae'n bosibl na fydd capasiti digonol gan gwmnïau lleol i sicrhau contractau. O ganlyniad i hyn, ni fydd marchnadoedd lleol yn cyrraedd graddfa ddigonol fel bod yr effeithiau economaidd cadarnhaol yn llai.

Mae'n bosibl y bydd cyflogwyr mawr, yn enwedig mewn diwydiannau uwch-dechnoleg, yn denu gweithwyr drwy gynnig cyflogau uchel ac y bydd hynny'n cynyddu'r galw am eiddo a gwasanaethau lleol. Bydd hyn yn cynyddu'r gost i'r holl bobl leol, yn cynnwys y rheini nad ydynt yn cael eu cyflogi'n uniongyrchol gan y cyflogwyr mawr. Mae'r effaith 'gwthio allan' hon yn fwyaf tebygol o gael ei phrofi lle mae'r NDA yn gyflogwr mawr neu'n brif gyflogwr (e.e. West Cumbria, Caithness, neu Ogledd Cymru).

Mae tystiolaeth glir o'r effaith hon mewn cymunedau sy'n agos i'n safleoedd. Er enghraifft, ym mwrdeistrefi Copeland ac Allerdale yn Cumbria, mae Sellafield yn talu oddeutu 58% a 27% o'r cyflogau lleol yn y drefn honno. Ym mynegai amddifadedd y Swyddfa Ystadegau Gwladol ar gyfer Lloegr yn 2019, mae Copeland yn West Cumbria yn 59fed o blith 317 o ardaloedd awdurdod lleol o ran cyflogaeth, ond yn 215fed o ran mynediad at dai a gwasanaethau. Yn bwysicach na hynny o bosibl, er gwaethaf y cyflogau uchel am waith datgomisiynu, mae ardaloedd difreintiedig iawn yn bodoli o hyd.

Ar y cyfan, mae awdurdodau lleol a chymunedau yn parhau i addasu i gwrdd ag anghenion safleoedd yr NDA a'n gwaith datgomisiynu. Fodd bynnag, mae'r diwydiant niwclear yn gallu creu dibyniaeth leol gryf (a fydd yn dechrau ddegawdau cyn y cyfnod datgomisiynu) ac mae'r NDA o dan rwymedigaeth i weithio gyda'r cymunedau i baratoi at newid, er enghraifft, drwy gefnogi mentrau i arallgyfeirio yn yr economi leol a helpu'r gadwyn gyflenwi i gyrraedd marchnadoedd newydd.

Yn y 10-15 mlynedd nesaf, er enghraifft, rydym yn disgwyl y bydd y gwaith datgomisiynu yn Dounreay yn dod i ben, felly bydd angen rhoi sylw penodol i helpu'r economi yn Caithness wrth iddi addasu. Rydym o dan rwymedigaeth i helpu ein gweithlu hefyd, drwy roi cymorth tuag at ailhyfforddi a chyfleoedd eraill.

Gellir codi enghreifftiau o astudiaethau achos ledled y byd lle mae diwydiannau wedi newid yn drawiadol ac mewn rhai achosion wedi diflannu'n llwyr o'u hardaloedd. Er mwyn rheoli'r trawsnewid yn llwyddiannus, mae angen dechrau flynyddoedd lawer ymlaen llaw i alluogi'r economi leol a'i phobl i aros yn gydnerth yn ystod newid o'r fath.

# Adran 2 – Cynllun gweithredu ar gyfer pob safle

Rydym wedi cydweithio'n agos â rhanddeiliaid ym mhob rhan o ystad yr NDA ac yn ein cymunedau lleol. Rydym wedi ceisio deall anghenion a blaenoriaethau lleol drwy ymgysylltu â Phartneriaethau Menter Lleol, Awdurdodau Cyfunol, Awdurdodau Lleol a chyrff economaidd rhanbarthol (e.e. Pwerdy Gogledd Lloegr). Mae'r asiantaethau hyn mewn lle da i ddeall cryfderau, cyfleoedd, gwendidau a bygythiadau lleol o ran seilwaith, sgiliau a busnesau. Fodd bynnag, mae Grŵp yr NDA yn gyfranogwr pwysig yn aml yn yr economïau lleol lle rydym yn gweithredu, felly rhaid i ni gynnwys ein mewnwelediadau a'n anghenion ein hunain. Rydym hefyd wedi ceisio pennu ffyrdd posibl i'r NDA helpu partneriaid lleol i fod mewn lle gwell i gyflawni prosiectau i drawsnewid yr economi.

Rydym wedi comisiynu ymchwil i'r strategaethau datblygu economaidd sy'n cael eu defnyddio o gwmpas y byd ac wedi rhoi sylw penodol i ardaloedd lle mae diwydiannau mawr yn bodoli neu lle cafwyd trawsnewid sylweddol o ddibyniaeth fawr ar weithgarwch diwydiannol.

Bydd ymyriadau'r NDA o gwmpas unrhyw un o'n safleoedd yn cael eu hasesu'n briodol gan ddefnyddio'r fframwaith penderfynu sydd wedi'i ddisgrifio yn adran 3. Yn yr adran hon, rydym yn darparu gwybodaeth lefel uchel am gyd-destun pob un o'n lleoliadau ac yn bwrw golwg ar y blaenoriaethau economaidd lleol a nodwyd gan ein busnesau a'n partneriaid.

Er mwyn cynyddu'r effaith, mae'r strategaeth newydd yn cynnig ein bod yn crynhoi ein cymorth economaidd-gymdeithasol mwyaf mewn mentrau mwy ar bob un o'n safleoedd. Mae rhai o'r mentrau hyn yn gysylltiedig â strategaeth eiddo'r NDA (e.e. tir Chapelcross), ac eraill â strategaethau awdurdodau lleol (e.e. Partneriaeth Romney Marsh) neu bolisïau BEIS. Yn gyffredinol, gellir grwpio'r 'prosiectau angori' hyn o dan chwe thema allweddol fel a ganlyn:

- **Sgiliau, hyfforddiant ac addysg**
- **Defnyddio ac ailddefnyddio tir ac eiddo**
- **Ynni Adnewyddadwy/Carbon Isel**
- **Yr amgylchedd busnes a chymorth i fusnesau bach**
- **Seilwaith**

Pwrpas y themâu hyn yw sicrhau cyfeiriad a phendantrwydd yn ein gwaith, yn enwedig mewn prosiectau mwy, ond ni ddylai hyn gau allan brosiectau llai dan arweiniad y gymuned sy'n cael eu cychwyn ar lawr gwlad ac sydd y tu allan i gwmpas y themâu hyn. Felly rydym yn cynnig y gellir parhau i ariannu prosiectau lleol (prosiectau bach a chanolig eu maint) drwy ddefnyddio ein pwerau rhoi grantiau, er y bydd systemau a phrosesau newydd sy'n cynnwys canlyniadau ac amcanion a fydd wedi'u diffinio'n gliriach.

Yn ogystal â hyn, drwy ymgysylltu â phartneriaid lleol rydym wedi canfod bod diffyg capasiti a galluogrwydd yn lleol i lunio'r achosion busnes sydd eu hangen i sicrhau bod cyllid ar gael i gyflawni'r prosiectau mwyaf a mwyaf trawsffurfiol. Felly bydd yr NDA yn ceisio helpu partneriaid lleol i fod yn fwy parod i ymateb i gyfleoedd ariannu o ffynonellau allanol ac i ddatblygu a chyflawni prosiectau o'r fath.

# WEST CUMBRIA – SELLAFIELD A'R STORFA GWASTRAFF LEFEL ISEL

Mae Sellafield yn cynnwys nifer mawr o gyfleusterau niwclear gweithredol ac etifeddol, ac yn cyflogi tua 10,000 o bobl yn uniongyrchol, ac yn helpu'n anuniongyrchol i gynnal 17,000 o swyddi pellach yn Cumbria. Mae'r Storfa Gwastraff Lefel Isel gerllaw yn ased cenedlaethol llwyddiannus iawn sy'n cael ei ddefnyddio gan y diwydiant niwclear a hefyd gan y GIG i storio isotopau meddygol.

**Cyfleoedd economaidd presennol a 'Phrosiectau Angori'**

Mae ein gweithgareddau presennol yn cynnwys:

- Prosiect WELL sy'n ceisio codi safonau addysg a chyrhaeddiad;
- Buddsoddi parhaus yng Nghronfa Gymunedol Copeland sy'n cynorthwyo prosiectau cymunedol yn yr ardaloedd sy'n agos i'r Storfa Gwastraff Lefel Isel;
- Rhaglen Buddsoddi Adfywio sy'n cynnwys buddsoddi i hybu busnesau ac arloesi, yn cynnwys mentrau yn The Watershed yn Whitehaven a chreu atyniad yr 'Hidden Coast' ar hyd arfordir West Cumbria;
- Mentrau i hybu twf busnesau yn Allerdale a Copeland;
- Darparu rhaglenni Allgymorth Addysg gyda chymorth ariannol gan yr NDA;
- Darparu cyfarpar realiti rhithwir o'r radd flaenaf ar gyfer y Coleg Cenedlaethol Niwclear;
- Astudiaethau dichonoldeb o fentrau a all helpu i arallgyfeirio economi Cumbria.

Bydd yr NDA yn parhau i gynorthwyo'r prosiectau hyn, yn ogystal â chydweithio'n fwy agos â'n cwmnïau trwydded safle a phartneriaid lleol i roi'r gallu i gynnal y gweithgareddau parhaus canlynol. Ym mhob achos, byddwn yn ystyried yn ofalus beth yw'r ffordd orau i wneud hyn er mwyn sicrhau'r budd economaidd mwyaf:

- Cynnal **rhaglen cyllid grant** Grŵp yr NDA yn Sellafield a darparu cymorth parhaus i Gronfa Gymunedol Copeland;
- **Llety a thir** – yn cynnwys adleoli tua 2,000 o staff i swyddfeydd yng nghanol trefi lleol a defnyddio'r tir sydd ar gael gan yr NDA ar gyfer gweithgarwch economaidd newydd a chynaliadwy;
- **PPP –** manteisio ar botensial economaidd y model Programme and Project Partners (PPP) er mwyn ffurfio partneriaethau hirdymor a thrawsffurfiol;
- Parhau â'n hymrwymiad i **Bartneriaeth Gwaith a Sgiliau Copeland**;
- **Prentisiaethau** – ymrwymo i 750 o warantau prentisiaeth yn ogystal â 250 o brentisiaethau Cymunedol;
- Cydweithio â'r Cyngor a phartneriaid eraill i amlinellu a chyflawni'r **Weledigaeth Economaidd ar gyfer y Fwrdeistref**;
- **Cael y budd mwyaf o symud gwaith nad yw'n waith niwclear oddi ar safle Sellafield** – bydd Grŵp yr NDA yn cynorthwyo'r **Industrial Solutions Hub** – rhaglen sy'n ceisio sicrhau'r effaith leol fwyaf posibl o symud rhai o gyfleusterau peirianneg Sellafield oddi ar y safle ac o gyfleoedd tebyg wrth iddynt godi yn y dyfodol er mwyn rhoi mwy o gyfle i fasnacholi sgiliau ac arbenigedd;
- **Britain's Energy Coast –** cadw rôl yr NDA fel y cyfranddaliwr mwyaf a defnyddio BEC i gyflawni rhannau perthnasol o'r strategaeth hon;
- **Trafnidiaeth a Logisteg** – bydd yr NDA yn cynorthwyo prosiectau sy'n helpu i greu buddion economaidd ehangach drwy newidiadau yn ein gwaith trafnidiaeth a logisteg, yn cynnwys gwaith mewn partneriaeth fel "Heathrow Hub". Byddwn yn ariannu astudiaeth i wneud gwell defnydd o **Borthladd Workington** i hybu gwaith yr NDA a datblygu economaidd ehangach;
- **Economi ddi-garbon net** – cymorth i brosiectau a mentrau sy'n hybu economi ddi-garbon net a chynaliadwyedd.

**Strategaeth Economaidd-Gymdeithasol i West Cumbria yn y Dyfodol**

Yn ogystal â'r uchod, bydd yr NDA yn ymrwymo i gydweithio â phartneriaid lleol er mwyn gweithredu'n gyson â dyheadau **Grŵp Rhanddeiliaid Safle West Cumbria, Strategaeth Ddiwydiannol Leol** Cumbria a'r **Weledigaeth Economaidd ar gyfer West Cumbria.**

Rhai o'r blaenoriaethau thematig allweddol sy'n codi o'r strategaethau hyn yw:

- Hybu arloesi;
- Creu amgylchedd sy'n cefnogi busnesau, yn cynnwys busnesau deilliedig a busnesau newydd;
- Lleoedd – yn cynnwys adfywio canol trefi a Whitehaven North Shore
- Seilwaith;
- Pobl a sgiliau;
- Hyrwyddo Cumbria fel lle braf i fyw, gweithio ac ymweld;
- Buddsoddi mewn Twf Glân;
- Cyfleoedd i arallgyfeirio, allforio a buddsoddi mewn sectorau eraill;
- Alinio â Bargeinion Twf Llywodraeth a mentrau cymorth Llywodraeth yn y dyfodol er mwyn gwella economi West Cumbria.

# DOUNREAY

Dounreay yw'r ail fwyaf cymhleth o blith safleoedd yr NDA ac mae'n gyflogwr lleol o bwys yn Caithness yng Ngogledd yr Alban. Mae tua 10% o'r swyddi lleol yn Caithness yn dibynnu ar safle Dounreay a'i gadwyn gyflenwi. Y disgwyl ar hyn o bryd yw y bydd y gwaith datgomisiynu wedi'i gwblhau yn y 2030au. Mae gwaith ar arallgyfeirio'r economi leol wedi dechrau ers tro, o dan arweiniad consortiwm o sefydliadau sy'n rhan o Bartneriaeth Adfywio Caithness a North Sutherland (CNSRP).

## Current economic opportunities and 'Anchor Projects'

Mae gwaith presennol yr NDA ar ddatblygu economaidd yn Dounreay yn cynnwys gwaith gan dri chorff: yr NDA, Dounreay Site Restoration Cyf a Phartneriaeth Cavendish Dounreay. Mae'r partïon hyn yn cydweithio'n agos â CNSRP sydd â'r nod o helpu i greu cyfleoedd cyflogaeth newydd yn yr ardal. Mae'r Bartneriaeth Adfywio yn cynnwys yr NDA, Cyngor yr Ucheldiroedd, Partneriaeth Cavendish Dounreay, Siambr Fasnach Caithness, Llywodraeth yr Alban, a Highlands and Islands Enterprise. Ymhlith y mentrau/rhaglenni presennol o dan arweiniad y partneriaid sy'n cael cymorth gan yr NDA y mae:

- Gweithgareddau galluogi CNRSP – rhaglenni sgiliau, ffyrdd, Harbwr Wick, maes awyr;
- Cyfleoedd CNSRP: y gofod, olew a nwy, ynni gwynt ar y môr, ynni'r llanw, twristiaeth, gwasanaethau niwclear a busnes, datblygu canol trefi.

Yn ogystal â'n hymrwymiad parhaus i weithgareddau CNRSP uchod, bydd yr NDA yn ariannu astudiaeth lawn ar ddyfodol Dounreay, yn cynnwys archwiliad sgiliau o safle Dounreay, gyda'r bwriad o ganfod cyfleoedd posibl ar gyfer ailddefnyddio tir a busnesau deilliedig ac er mwyn ymchwilio i ffynonellau cyflogaeth eraill posibl y gellir eu hyrwyddo yn yr ardal.

**Strategaeth Economaidd-Gymdeithasol i Dounreay yn y Dyfodol**

Strategaeth yr NDA ar gyfer Dounreay yw:

- cyfrannu at gynnal a datblygu sgiliau yn yr ardal;
- cyfrannu at seilwaith economaidd a chymdeithasol yr ardal;
- helpu economïau lleol i arallgyfeirio i sectorau eraill.

Bydd yr NDA yn cefnogi prosiectau a rhaglenni â blaenoriaeth sy'n ceisio cwrdd â'r anghenion strategol hyn:

- Cefnogi'r ymgyrch leol o blaid Rhwymedigaeth Gwasanaeth Cyhoeddus ym Maes Awyr Wick;
- Helpu i wneud yr ardal yn fwy deniadol;
- Defnyddio adnoddau i hybu datblygu economaidd yn yr ardal;
- Parhau i gyflawni amcanion a rhaglen CNSRP;
- Cyfrannu at ddatblygu a sefydlu busnesau newydd yn yr ardal.

## Safleoedd Magnox

O blith gweddill safleoedd yr NDA, mae'r rhan fwyaf ohonynt yn gyn orsafoedd pŵer niwclear. Rhwng 200 a 500 o bobl sy'n gweithio ar y safleoedd hyn bellach. Er bod y niferoedd hyn yn llai nag yn Sellafield a Dounreay, maent yn niferoedd sylweddol ar lefel leol ac yn arwyddocaol ar lefel ranbarthol yng Ngogledd-orllewin Cymru. Cynhaliodd yr NDA asesiad effaith economaidd manwl o safleoedd Magnox yn 2018. Roedd yr astudiaeth hon wedi amcangyfrif bod Magnox Cyf yn cynnal tua 3,000 o swyddi ar lefel leol ac mai tua £200 miliwn oedd ei effaith ar werth ychwanegol gros.

## Gogledd-orllewin Cymru –Wylfa a Thrawsfynydd

Er bod amgylchiadau economaidd-gymdeithasol safleoedd Wylfa a Thrawsfynydd yn wahanol o ran eu natur benodol ac amserlenni'r datblygiadau presennol ac arfaethedig, mae nifer o agweddau'n gyffredin i'r ddwy ardal.

- Cryfder economaidd isel/dibyniaeth uchel ar Safle Magnox lleol;
- Prinder cyflogaeth arall o werth uchel yn y ddwy ardal;
- Pwysigrwydd y Gymraeg a'i diwylliant;
- Allfudo gan bobl ifanc;
- Cryfder y gweithlu niwclear lleol yn y ddwy ardal;
- Mae'r gadwyn cyflenwi sgiliau yng Ngogledd-orllewin Cymru yn gwasanaethu'r ddau safle.

Mae'r gwaith o ddatgomisiynu safle **Trawsfynydd** wedi dechrau ers cyfnod hir, fel y mae'r gostyngiad yn lefelau cyflogaeth y safle o ganlyniad i hynny. Bum mlynedd yn ôl, roedd nifer y gweithlu datgomisiynu ar ei uchaf ar 700. Mae tua 160 o weithwyr ar ôl ar hyn o bryd. Mae safle Trawsfynydd yn bwysig yn rhanbarth Dwyfor-Meirionnydd, lle mae'r incwm cyfartalog ar ei isaf drwy'r DU. Mae llai nag 1% o'r busnesau yn rhanbarth Dwyfor-Meirionnydd yn cyflogi mwy na 50 o bobl.

Mae safle **Wylfa** wedi'i glustnodi ar gyfer Gorsaf Pŵer Niwclear Newydd, er bod y datblygiad arfaethedig wedi'i atal ar ddechrau 2019. Mae Cyngor Sir Ynys Môn wedi hyrwyddo cynigion eraill ar gyfer 'Rhaglen Ynni Ynys Môn' a fydd yn canolbwyntio ar brosiectau ynni carbon isel gyda chymorth yr NDA.

**Cyfleoedd economaidd presennol a 'Phrosiectau Angori' yn Wylfa**

Her benodol i lunwyr polisi economaidd yn Ynys Môn yw statws Wylfa Newydd. Mae'r NDA yn cydnabod bod y cynllun economaidd ar gyfer Ynys Môn yn gwbl ddibynnol ar statws y prosiect anferth hwn. Mae disgwyl y bydd buddsoddi wedi'i arwain gan ddatblygwyr yn sicrhau rôl fwy penodol i'r sector cyhoeddus a fydd yn canolbwyntio ar dwf cynhwysol. Os bydd yr oedi ar brosiect Wylfa Newydd yn parhau, yna mae'n debyg y bydd y galwadau ar y sector cyhoeddus yn fwy ac yn fwy amrywiol. Mae'r NDA yn cydnabod bod angen mwy o hyblygrwydd a bydd yn cydweithio â phartneriaid fel y Cyngor yn unol â hynny.

Ceir ymdrechion ar safle Wylfa i fabwysiadu ynni carbon isel, yn cynnwys gorsaf pŵer niwclear newydd, a bydd yr NDA yn cefnogi prosiectau angori yn y maes hwn. Yn ogystal â hyn, mae ymrwymiad o hyd i gefnogi prosiectau pwysig o gwmpas Wylfa, yn cynnwys:

- Cynllun Adfywio Gogledd Ynys Môn, yn benodol:
- Unedau Busnes Newydd – darparu unedau busnes ar safleoedd addas yn Amlwch (lleoliad a chyllid i'w cadarnhau) ac mewn lleoliadau addas eraill wrth i'r cyfle godi;
- Hyrwyddo Buddsoddi Preifat – hyrwyddo a chefnogi buddsoddiadau newydd yn yr ardal;

- Cymorth Busnes – hysbysebu cymorth a chyngor ar gyfer cychwyn ac ehangu busnesau;
- Addysg, Sgiliau a Chyflogadwyedd – datblygu sgiliau a phrofiad gwaith pobl leol;
- Mynydd Parys – cymryd camau pellach i ddatblygu potensial y safle fel atyniad i ymwelwyr, a'r cysylltiadau ag ef;
- Ardal Harbwr Cemaes – manteisio ar gyfleoedd i wneud yr ardal yn fwy deniadol ac ychwanegu at ei gwerth economaidd;
- Datblygiadau Ynys Ynni Môn;
- Cymorth ariannol ar gyfer menter Cymunedau yn Gyntaf Môn ac, yn benodol, darparu hyfforddiant i ddysgu'r sgiliau angenrheidiol i bobl yn Ynys Môn i'w galluogi i gael swyddi.

**Cyfleoedd economaidd presennol a 'Phrosiectau Angori' yn Nhrawsfynydd**

Mae gan yr NDA hanes o ddarparu cymorth economaidd-gymdeithasol a chyllid yn yr ardal o gwmpas Trawsfynydd ac mae ymrwymiad parhaus o hyd i gefnogi mentrau pwysig. Rhai enghreifftiau o gymorth o'r fath yn y blynyddoedd diwethaf yw:

- Prosiect STEM y Gogledd sy'n hybu Addysg STEM yng Ngwynedd, Ynys Môn a Chonwy;
- Cymorth i Ymddiriedolaeth Rheilffordd Llyn Tegid ar gyfer ymestyn y rheilffordd dreftadaeth er mwyn hybu cyflogaeth a thwristiaeth;
- Parhau i ariannu'r Rhaglen Llwybrau i Gyflogaeth lwyddiannus drwy'r Bartneriaeth Awyr Agored.

Bydd prosiectau angori yn Nhrawsfynydd yn y dyfodol yn ymwneud ag ynni adnewyddadwy. Mae Trawsfynydd yn rhan o Ardal Fenter Eryri. Ochr yn ochr â'r NDA, mae Cyngor Gwynedd yn bartner allweddol yn y fenter hon. Y weledigaeth ar gyfer rhan Trawsfynydd yn Ardal Fenter Eryri yw mai hwn fydd:

*"y lleoliad a ffefrir ar gyfer mentrau technoleg carbon isel o ansawdd da, a fydd yn elwa o nodweddion unigryw ac asedau strategol y safle; gan fanteisio ar ei leoliad yng nghanol y Parc Cenedlaethol i helpu i drawsnewid rhagolygon economaidd yr ardal".*

Mae'r NDA hefyd wedi cefnogi Rhaglen Drawsnewid benodol ar gyfer Trawsfynydd sy'n cynnwys:

- datblygu Safle Trawsfynydd ar gyfer datblygiad SMR/AMR – dyrannu adnoddau i gynnal gweithgareddau i ddileu risgiau ar y safle i'w wneud yn

fwy deniadol i ddatblygwyr. Gall yr NDA wneud cyfraniad pwysig drwy hwyluso datblygu o'r fath, er enghraifft, drwy hwyluso unrhyw waith sydd ei angen a hefyd drwy ei ddull o reoli asedau. Bydd yr NDA yn sicrhau bod asedau cysylltiedig yr NDA yn yr ardal ehangach, fel y llyn a'r seilwaith ym Maentwrog, yn parhau i fod ar gael yn rhan o'r strategaeth gyffredinol ar gyfer y safle;
- Datblygu amgylchedd busnes ehangach y rhanbarth er mwyn creu swyddi o werth uchel mewn nifer y sectorau penodol;
- Datblygu prosiectau gwledig/cymunedol i greu cyflogaeth o werth uchel drwy weithredu "o'r bôn i'r brig".

Mae'r rhaglen yn rhoi cymorth hefyd i ddatblygu prosiectau penodol yn rhan o Gais Twf Gogledd Cymru, a fydd yn cynnwys:

- Datblygu Sefydliad Dyfodol Niwclear Prifysgol Bangor a fydd yn cynnwys cyfleusterau yn Ynys Môn i ategu'r cyfleuster thermo-hydrolig arfaethedig yng nghyfleuster MSParc yn ogystal â gwaith ymchwil a datblygu dichonol a fydd yn cynnwys cymorth gan yr NDA a Datgomisiynu Trawsfynydd ac Wylfa;
- Darparu cysylltedd digidol gwell ar safleoedd allweddol ledled y rhanbarth, a fydd yn cynnwys safle Trawsfynydd.

**Strategaeth Economaidd-Gymdeithasol i Ogledd Cymru yn y Dyfodol**

Yn ogystal â pharhau i gefnogi gwaith Ardal Fenter Eryri, bydd yr NDA hefyd yn ceisio gweithredu'n gyson â Bargen Twf Gogledd Cymru. Y Weledigaeth Twf ar gyfer Gogledd Cymru yw'r strategaeth datblygu economaidd ar gyfer y rhanbarth. Disgwylir y bydd hyn yn darparu adnoddau i gyflawni rhai o'r ymyriadau strategol allweddol.

Mae'r grŵp cyntaf o brosiectau sy'n debygol o symud ymlaen o dan Fargen Twf Gogledd Cymru yn cynnwys:

- Seilwaith digidol;
- Adweithydd Niwclear Modiwlaidd Bach Trawsfynydd;
- Canolfan Ragoriaeth Niwclear (Prifysgol Bangor / MSparc);
- Porth Caergybi;
- Datblygu Tir ac Eiddo;
- Ynni Clyfar.

## Yr Alban: HUNTERSTON A

Mae 300 o bobl wedi'u cyflogi ar safle Hunterston A ar hyn o bryd a 500 ychwanegol yn cael eu cyflogi gan EDF ar safle cyfagos Hunterston B. Yn yr un modd â safleoedd eraill Magnox, mae'r rhan fwyaf o'r gwaith ar y safleoedd yn grefftus iawn. Mae 72% o'r gweithlu yn byw yng Ngogledd Swydd Aeron.

### Cyfleoedd economaidd presennol a 'Phrosiectau Angori'

Bydd yr NDA yn gweithredu'n gyson â strategaethau economaidd lleol a rhanbarthol a chynlluniau adfywio mawr er mwyn hybu'r economi leol drwy'r canlynol:

- Gweithio mewn partneriaeth â phartneriaid lleol i wneud y rhanbarth yn fwy deniadol a helpu i drawsnewid sail economaidd ac amgylcheddol yr economi leol drwy hybu'r Meysydd Datblygu Strategol yng Nghynllun Datblygu Lleol y Cyngor;
- Mae hyn yn cynnwys cymorth i adfywio safleoedd strategol fel Lochshore, a'r weledigaeth ym Margen Twf Swydd Aeron ar gyfer trawsnewid Ardrossan a Hunterston;
- Helpu i ddatblygu addysg, ailhyfforddi a sgiliau mewn cymunedau lleol ochr yn ochr â phartneriaid yn yr ardal ehangach, yn cynnwys Ayrshire College;
- Helpu partneriaid lleol i ddeall yr effaith economaidd-gymdeithasol o safle Hunterston B yn y dyfodol;
- Gweithio mewn partneriaeth â'r Cyngor i weithredu dull Adeiladu Cyfoeth Cymunedol er mwyn cynorthwyo busnesau lleol, sicrhau gwaith teg ac ystyrlon a chreu lleoedd llwyddiannus.

### Strategaeth Economaidd-Gymdeithasol i Hunterston yn y Dyfodol

Ar gyfer prosiectau mawr, mae'r NDA yn bwriadu gweithio o fewn fframwaith Bargen Twf Swydd Aeron. Y fargen twf hon, a gwblhawyd ym Mawrth 2019, yw'r fargen twf gyntaf o'i bath yn yr Alban nad yw'n gysylltiedig â dinas. Mae'n cynnwys ymrwymiad o £103 miliwn gan Lywodraeth y DU a Llywodraeth yr Alban. Bydd awdurdodau lleol yn darparu arian cyfatebol o hyd at £45.5 miliwn ac mae'r fargen twf yn werth cyfanswm o £251 miliwn dros 15 mlynedd.

Uchelgais y fargen twf yw sicrhau buddsoddiad preifat o tua £300 miliwn a chreu tua 7,000 o swyddi newydd mewn nifer o wahanol sectorau. Y themâu yw:

- Awyrofod a Gofod;
- Ynni;

- Morol;
- Gweithgynhyrchu;
- Twristiaeth.

## Yr Alban: CHAPELCROSS

Mae Chapelcross yn ne Dumfries a Galloway, yn agos i drefi Annan a Gretna. Gellir ei gyrraedd mewn car o ganol Caerliwelydd mewn tua 30 munud. Mae Dumfries a Galloway yn ardal amaethyddol dros ben, ac mae 28% o'i fusnesau'n gysylltiedig ag amaethyddiaeth, coedwigaeth a physgota.

Safle Chapelcross yw un o'r rhai mwyaf sydd gan yr NDA. Mae'n cynnwys tua 200 hectar o dir. Mae nifer o fanteision strategol gan y safle hefyd, sef ei agosrwydd i'r draffordd a dinas Caerliwelydd a'r cysylltiad â'r grid trydan.

### Cyfleoedd economaidd presennol a 'Phrosiectau Angori'

Mae'r NDA yn cefnogi prosiect CX, sydd â'r nod o ddefnyddio tir yn Chapelcross a'r cyffiniau i ddatblygu canolfan gyflogaeth ranbarthol wedi'i seilio ar y canlynol:

- Ynni adnewyddadwy;
- Canolfan weithgynhyrchu, ar gyfer cynhyrchion coedwigoedd yn bennaf;
- Gofod diwydiannol;
- Gofod ymchwil a datblygu;
- Safleoedd amrywiol eraill, yn cynnwys storfeydd glo.

Prosiect CX yw prif flaenoriaeth yr NDA yn Chapelcross. Fodd bynnag, byddwn yn parhau i gefnogi prosiectau llai drwy ddyrannu grantiau. Rhai enghreifftiau o brosiectau a gafodd grant yn ddiweddar yw:

- Prosiect Ymddiriedolaeth Gymunedol Castle Loch Lochmaben i greu cylchffordd o amgylch y llyn a rhaglen dysgu awyr agored;
- Gwasanaeth Pobl Ifanc Dumfries a Galloway 'Youth Beatz';
- Annan Riding of the Marches.

### Strategaeth Economaidd-Gymdeithasol i Chapelcross yn y Dyfodol

Mae cynllun economaidd y cyngor lleol yn canolbwyntio ar 5 maes:

- Ynni, yn enwedig ynni adnewyddadwy;
- Diwydiannau creadigol;
- Technoleg coedwigaeth a phren;

- Seilwaith trafnidiaeth (yn enwedig yr M74, A75, A77);
- Twristiaeth;
- Bwyd a diod.

Yn ogystal â hyn, nodwyd bod cyfle pwysig yn Chapelcross i gymryd rhan ym Margen Twf Borderlands, sy’n pontio rhwng yr awdurdodau lleol ar ddwy ochr y ffin rhwng yr Alban a Lloegr.

Bydd yr NDA yn parhau i ystyried ceisiadau am gyllid grant (hyd at £100,000) ar gyfer prosiectau lleol da sy’n cael eu harwain gan y gymuned. Fodd bynnag, yr unig brosiectau mwy a gefnogir fydd y rheini sy’n ategu prosiect CX.

## DUNGENESS

Mae gorsafoedd pŵer niwclear Dungeness A a B yn Romney Marsh o fewn Dosbarth Folkestone a Hythe yng Nghaint. Mae Cynllun Busnes yr NDA 2018-21 a’r Asesiad Economaidd o Safleoedd Magnox (2018) yn dangos bod economi Romney Marsh yn ddibynnol iawn ar y diwydiant niwclear ac mae hyn, ynghyd â gwendid yr economi leol, yn golygu bod Grŵp yr NDA yn rhoi blaenoriaeth uchel i safle Dungeness.

Dechreuwyd datgomisiynu safle Dungeness A wedi i’r orsaf orffen cynhyrchu pŵer yn 2006 ac mae safle Dungeness B yn cael ei weithredu gan EDF tan 2028.

**Cyfleoedd economaidd presennol a ‘Phrosiectau Angori’ yn Dungeness**

Y prif ymrwymiad parhaus gan Magnox a’r NDA yw parhau i gefnogi Partneriaeth Romney Marsh, yn cynnwys ariannu swydd cydgysylltydd. Mae hyn yn ychwanegol at ddarparu grantiau eraill i gynorthwyo prosiectau lleol.

Mae **Partneriaeth Romney Marsh** (RMP) yn grŵp amlasiantaethol o sefydliadau llywodraethol, preifat a chymunedol sy’n cydweithio i hybu datblygu economaidd lleol er mwyn lliniaru’r effeithiau o gau’r gorsafoedd pŵer niwclear yn Romney Marsh. Datblygwyd Cynllun Economaidd-Gymdeithasol Romney Marsh yn gyntaf yn 2014-17 ac roedd yn nodi cyfleoedd allweddol i ehangu’r economi leol. Diweddarwyd y Cynllun hwn yn 2017 ac mae’r un mwyaf diweddar yn rhedeg hyd at 2020. Mae cronfa economaidd-gymdeithasol Magnox hefyd yn cyfrannu at ddarparu adnoddau partneriaeth eraill, yn cynnwys cyllid ar gyfer swydd Cydgysylltydd RMP sy’n gweinyddu RMP ac yn hwyluso prosiectau sy’n gweithredu o dan y Cynllun Economaidd-Gymdeithasol.

### Strategaeth Economaidd-Gymdeithasol i Dungeness yn y Dyfodol

Mae’r Cynllun Economaidd-Gymdeithasol yn cael ei adolygu ar hyn o bryd ar gyfer y cyfnod nesaf o dair blynedd ac mae dyfodol RMP fel sefydliad annibynnol yn cael ei ystyried. Er bod tri nod cyffredinol y Cynllun presennol yn parhau’n bwysig, y bwriad yw canolbwyntio yn y cynllun nesaf ar nifer llai o brosiectau mwy trawsffurfiol sy’n ymdrin â’r colofnau allweddol canlynol: hygyrchedd, seilwaith, sgiliau, mewnfuddsoddi a thwf busnes, a chynhyrchiant.

Yn benodol, bydd yn dod â phrosiectau ymlaen sydd:

- yn manteisio ar gyfleoedd yn y sector niwclear a’r sector twristiaeth;
- yn gwella hygyrchedd er mwyn gwella’r gweithlu a symudedd cymunedol;
- yn hybu ac yn cefnogi datblygiad busnesau;
- yn gwireddu potensial y gweithlu drwy ddatblygu sgiliau;
- yn gwella seilwaith.

Cefnogi Partneriaeth Romney Marsh yw prif flaenoriaeth yr NDA ar safle Dungeness A. Bydd yr NDA yn parhau i ystyried ceisiadau am gyllid grant (hyd at £100,000) ar gyfer prosiectau lleol da sy’n cael eu harwain gan y gymuned. Fodd bynnag, yr unig brosiectau mwy a gynorthwyir fydd y rheini sy’n ategu blaenoriaethau economaidd y rhanddeiliaid lleol a byddant yn cael eu hasesu ar sail y fframwaith a nodwyd.

## WINFRITH

Enw blaenorol safle Winfrith oedd Sefydliad Ynni Atomig Winfrith, neu AEE Winfrith, a daeth gweithrediadau ar y safle i ben ym 1995 ac mae’r gwaith datgomisiynu i’w gwblhau yn 2021.

O dan Fwrdd Prosiect Rheoli Tir Strategol yr NDA (SLMPB), mae rhywfaint o’r tir yn Winfrith wedi’i ryddhau at ddibenion eraill, yn cynnwys Parc Arloesi Dorset, sydd wedi helpu i gadw cyflogaeth yn yr ardal.

### Cyfleoedd economaidd presennol a ‘Phrosiectau Angori’ yn Winfrith

Yn ddiweddar, mae’r rhan fwyaf o’r cymorth economaidd-gymdeithasol yn yr ardal wedi’i ddarparu ar ffurf grantiau ar gyfer cyfleusterau lleol, yn cynnwys Neuadd Bentref Winfrith, Ysgol Gynradd Lulworth a Winfrith ac Ysgol Gynradd Wirfoddol a Gynhelir Wool Eglwys Loegr. Bydd yr NDA yn parhau i drefnu i gymorth grant tebyg fod ar gael.

Yn ogystal â hyn, mae'r NDA wedi gallu rhyddhau tir ar gyfer Ardal Fenter Parc Arloesi Dorset – clwstwr rhagoriaeth peirianneg uwch ar gyfer De-orllewin Lloegr, sy'n adeiladu ar sail cryfderau ym meysydd y môr, amddiffyn ac ynni.

Un safle o 50 hectar yw hwn, a gellir datblygu 35 hectar ohono. Hwn yw'r safle cyflogaeth strategol ail fwyaf yn ardal Partneriaeth Cyflogaeth Leol Dorset ac fe'i datblygwyd ar dir yn Winfrith.

**Strategaeth Economaidd-Gymdeithasol i Winfrith yn y Dyfodol**

Fel y brif Strategaeth Datblygu Economaidd ar gyfer Dorset, mae Cynllun Strategol Partneriaeth Cyflogaeth Leol Dorset yn amlinellu'r uchelgeisiau economaidd canlynol:

Darparu amgylchedd busnes a fydd yn cynnwys hyd at 40,000 o swyddi ychwanegol erbyn 2021, gyda thwf blynyddol mewn cyflogaeth a gwerth ychwanegol gros sy'n gyson uwch na'r cyfartaledd yn y DU;

- Bydd yr NDA yn ceisio gweithredu'n gyson â'r Cynllun Economaidd Strategol ac yn Rhoi blaenoriaeth i sectorau allweddol a chwmnïau twf uchel sy'n cryfhau'r economi seiliedig ar wybodaeth yn Dorset ac yn darparu swyddi mwy crefftus am gyflog uwch gan fanteisio ar gyfleoedd i fusnesau a chadwyni cyflenwi Dorset ar lefel genedlaethol a rhyngwladol;
- Elwa o'r potensial ar gyfer cyflogaeth twf uchel, sgiliau uchel a gwerth uchel sy'n gysylltiedig â sectorau sydd â blaenoriaeth: Gweithgynhyrchu uwch, creadigol a digidol, morol, a thechnolegau gofal iechyd sydd â bwriad pendant i hybu allforion;
- Trawsnewid Dorset drwy fanteisio ar ei manteision naturiol unigryw. Denu pobl ac adnoddau i'r rhanbarth drwy arloesi mewn twristiaeth, adleoli cyflogwyr a denu a chadw gweithlu talentog;
- Hybu twf economaidd drwy barhau i wella cysylltedd drwy fuddsoddi mewn seilwaith trafnidiaeth a gwasanaethau a chenedlaethau newydd o seilwaith digidol, yn cynnwys technolegau symudol;
- Cynyddu'r cyfraniad gan bobl dalentog a busnesau yn y cytrefi ac yn Dorset wledig, gan gysylltu ein systemau addysg a hyfforddiant â'r anghenion a'r cyfleoedd mewn economi sy'n tyfu;
- Sicrhau bod marchnad dai gynaliadwy, fforddiadwy ac amrywiol yn cwrdd ag anghenion preswylwyr a chyflogeion sy'n symud i'r rhanbarth, heb arafu twf economaidd mewn unrhyw ffordd.

Bydd yr NDA yn ceisio gweithredu'n gyson â'r Cynllun Economaidd Strategol ac yn cydweithio â phartneriaid i gael y buddion mwyaf wrth gyflawni'r cynllun.

# HARWELL

Sefydlwyd Harwell ym 1946 fel Sefydliad Ymchwil Ynni Atomig cyntaf Prydain. Roedd pum adweithydd ymchwil o wahanol fathau ar y safle. Roedd nifer o gyfleusterau ymchwil niwclear eraill ar y safle hefyd, ynghyd â chyfleusterau trafod plwtoniwm, labordai ymbelydredd, a chyfleusterau trin a storio gwastraff niwclear.

Mae'r gwaith datgomisiynu ar safle Harwell wedi dechrau ers tro. Mae dau o'r adweithyddion wedi'u symud yn gyfan gwbl, a thynnwyd y tanwydd o'r tri adweithydd sy'n weddill sydd bellach yn cael eu datgomisiynu. Symudwyd mwy na 100 o gyfleusterau eraill o'r safle ac mae eraill yn cael eu datgomisiynu. Mae gwastraff hanesyddol yn cael ei godi o'r lleoliadau storio presennol ac yn cael ei ailbacio i'w storio dros y tymor hwy – a'i waredu yn y pen draw. Y disgwyl yw y bydd y gwaith datgomisiynu wedi'i gwblhau erbyn 2025.

**Cyfleoedd economaidd presennol a 'Phrosiectau Angori' yn Harwell**

Campws Harwell yw'r casgliad mwyaf yn Ewrop o gyfleusterau gwyddonol mynediad agored ac mae'n werth mwy na £2 biliwn. Mae cwmnïau sy'n ceisio tyfu'n gyflym, neu ymchwilio i farchnadoedd newydd, yn gallu hyrwyddo eu hymchwil, dilysu a phrofi eu technoleg, a manteisio ar wybodaeth a sgiliau'r 5,500 o bobl ar y campws gwyddoniaeth a thechnoleg hwn. Mae'r buddsoddiadau hyn, sy'n digwydd yn bennaf yn sectorau craidd Gwyddorau Bywyd, Ynni a'r Gofod, sy'n creu gwerth ychwanegol gros o fwy nag £1 biliwn, yn ôl amcangyfrif, yn dod â budd sylweddol o ran creu swyddi a thwf economaidd cenedlaethol. Gellir defnyddio tir yn Harwell i ddatblygu'r ased economaidd pwysig hwn ymhellach. Yr hyn sy'n anarferol yn yr achos hwn yw nad yr NDA sy'n berchen ar y tir y mae'n ei ddatgomisiynu yn Harwell, ond Awdurdod Ynni Atomig y DU (UKAEA).

Cefnogi'r Campws yw prif flaenoriaeth yr NDA yn Harwell. Bydd yr NDA yn parhau i ystyried ceisiadau am gyllid grant (hyd at £100,000) ar gyfer prosiectau lleol da sy'n cael eu harwain gan y gymuned. Rhai enghreifftiau o brosiectau o'r fath a gafodd gymorth ariannol gan yr NDA yn ddiweddar yw ymgyrchoedd i brynu cyfarpar ar gyfer Côr Cymunedol Hendred a Chlwb Pêl-droed Ieuenctid Harwell a Hendred. Fodd bynnag, yr unig brosiectau mwy a gynorthwyir fydd y rheini sy'n cefnogi Campws Harwell.

**Strategaeth Economaidd-Gymdeithasol i Harwell yn y Dyfodol**

Mae Cynllun Economaidd Strategol Partneriaeth Cyflogaeth Leol Swydd Rydychen yn nodi bod y themâu canlynol yn allweddol i gyflawni uchelgeisiau economaidd yr ardal:

- Pobl – darparu a denu sgiliau arbenigol a hyblyg ar bob lefel, yn yr holl sectorau, yn ôl gofynion ein busnesau, llenwi bylchau sgiliau, a cheisio sicrhau cyflogaeth lawn, gynhwysol a swyddi sy’n rhoi boddhad;
- Lle – sicrhau bod cysylltiad cryf rhwng twf mewn swyddi a thai, a darparu amgylchedd o ansawdd da sy’n hybu ac yn cynnal twf;
- Menter – rhoi pwyslais ar dwf seiliedig ar arloesi, wedi’i ategu gan gryfder y sylfaen ymchwil yn Swydd Rydychen, cydweithio rhwng busnesau a photensial y gadwyn gyflenwi;
- Cysylltedd – galluogi pobl, nwyddau a gwasanaethau i symud yn rhwyddach, i gysylltu’n haws; gwella’r ddarpariaeth band eang a symudol.

Bydd yr NDA yn ceisio cefnogi gweithgareddau yn y dyfodol sy’n gyson â’r blaenoriaethau hyn.

## De-ddwyrain Lloegr – Bradwell a Sizewell

Mae dau safle gan yr NDA, Bradwell a Sizewell, sy’n bwysig i economi arfordir Gogledd Essex a Suffolk. Mae potensial ar gyfer datblygiadau niwclear newydd ar y ddau safle a chafwyd datblygu sylweddol eisoes ar ynni’r gwynt ar y môr. Mae atyniad economi Llundain a phrosiectau adeiladu mawr eraill yn her i gymunedau lleol.

### Cyfleoedd economaidd presennol a ‘Phrosiectau Angori’ yn Ne-ddwyrain Lloegr

Yn Bradwell, mae’r NDA wedi parhau â’i ymrwymiad i Fwrdd Naws am Le Maldon. Yn Sizewell, mae’r NDA wedi cefnogi’r economi dwristiaeth leol, er enghraifft, drwy ddarparu cyllid sylweddol i Amgueddfa Long Shop yn Leiston.

Mae’n debygol y bydd y rhan fwyaf o’r cydweithio rhwng awdurdodau lleol y rhanbarth a’r NDA dros y blynyddoedd nesaf yn ymwneud â sgiliau, yn enwedig ym meysydd peirianneg, adeiladu a digidol. Bydd yr NDA yn rhoi blaenoriaeth i brosiectau angori sy’n gysylltiedig â sgiliau ac addysg.

### Strategaeth Economaidd-Gymdeithasol i Dde-ddwyrain Lloegr yn y Dyfodol

### Tirwedd Leol Essex, Suffolk a Thu Hwnt

Mae Strategaeth Economaidd ar y cyd gan Suffolk a Norfolk sy’n ceisio cyflawni’r canlynol:

- helpu pobl ifanc i anelu'n uchel a deall y gyrfaoedd lleol cyffrous sydd ar gael iddynt;
- ysbrydoli pobl ifanc ynghylch y cyfleoedd sydd ar gael a darparu cymorth i'w galluogi i fanteisio arnynt, yn cynnwys cymorth i gael cyflogaeth;
- ehangu'r biblinell addysg rhwng ysgolion cynradd ac uwchradd drwy ddenu plant at y gwyddorau, technoleg a pheirianneg;
- cyflawni'r adduned ieuenctid.

Strategaeth Ddiwydiannol Leol ddrafft Norfolk yw'r cam nesaf yn y strategaeth sy'n datblygu. Mae'n portreadu Norfolk a Suffolk fel rhanbarth twf glân y DU. Mae'n canolbwyntio ar y canlynol:

- ynni glân;
- bwyd-amaeth;
- TGCh/digidol creadigol;
- porthladdoedd a logisteg;
- diwylliant a'r economi ymwelwyr.

**Manylion am Suffolk**

'Raising the Bar' yw'r rhaglen yn Suffolk ar gyfer gwella lefelau cyrhaeddiad addysgol ledled y sir. Mae wedi'i seilio ar strategaeth SEND Suffolk. Mae'n nodi'n glir y blaenoriaethau lleol ar gyfer sgiliau ac addysg a bydd yr NDA yn ceisio cefnogi'r rhain.

**Manylion am Essex**

Mae Strategaeth Sgiliau Partneriaeth Fenter Leol De-ddwyrain Lloegr wedi nodi'r canlynol:

- Blaenoriaeth i gynyddu nifer y prentisiaethau a chymwysterau perthnasol i ddiwydiant i bob oed, yn enwedig mewn sectorau sydd â blaenoriaeth ac ar lefel uwch a lefel gradd;
- Yr angen i symleiddio'r tirlun sgiliau er mwyn cyflogwyr, rhanddeiliaid ac unigolion;
- Yr angen i adeiladu economi gynhwysol, gan greu cyfleoedd i bawb;
- Yr angen i hybu ymwybyddiaeth o swyddi a thwf ledled ardal SELEP o ran maint, graddfa a phwysigrwydd cenedlaethol a rhyngwladol;
- Cynyddu cynhyrchiant ar sail busnesau arloesol;
- Dysgu sgiliau ar gyfer y dyfodol (prinder tiwtoriaid/aseswyr, cymwysterau Safon T, defnyddio'r ardoll brentisiaethau, sgiliau digidol).

Yn ogystal â hyn, dros y 5-20 mlynedd nesaf bydd Essex yn gartref i'r datblygiadau canlynol, ymysg eraill:

- naw cymuned ardd (rhagwelir y bydd 240,000 o gartrefi);
- Pont Tafwys Isaf;
- Bradwell B;
- Gwelliannau sylweddol i briffyrdd, yn cynnwys gwelliannau i'r A130 a'r A12 ac i gyffyrdd yr M11;
- Ysbyty newydd a chyfleuster Public Health England yn Harlow;
- Ehangu Maes Awyr Stansted i'w faint llawn;
- Gorsaf drenau newydd yn Chelmsford.

**De-orllewin Lloegr – Berkeley, Oldbury, Hinkley Point A**

Roedd safleoedd Hinkley Point A, Berkeley ac Oldbury yn cynnwys gorsafoedd pŵer Magnox ac yn agos i geg Afon Hafren a Môr Hafren. Mae pob un o'r tair yn cael ei datgomisiynu ar hyn o bryd.

Mae rhan o'r tir yn **Berkeley** wedi'i rhyddhau o'r blaen i ddatblygu campysau gan South Gloucestershire and Stroud College Commercial Services Cyf, ac roedd 32 hectar o dir yn **Oldbury** wedi'i ddad-ddynodi mewn prosiect dwy flynedd ar gyfer adeiladu Gorsaf Pŵer Niwclear Newydd.

**Cyfleoedd economaidd presennol a 'Phrosiectau Angori' yn Ne-orllewin Lloegr**

Mae safleoedd yr NDA yn Ne-orllewin Lloegr eisoes wedi'u hintegreiddio â gwaith ar raddfa ehangach dan arweiniad EDF yn Hinkley C. Er mwyn parhau â'r cynnydd hwnnw, blaenoriaethau'r NDA ar gyfer De-orllewin Lloegr fydd cydweithio â phartneriaid ar y canlynol:

- Canolfan sgiliau ynni ar gampws Bridgwater yng Ngholeg Bridgwater a Taunton a **chanolfan sgiliau adeiladu ac arloesi** ar gampws deheuol y Coleg Niwclear Cenedlaethol yn Cannington;
- Cymorth gan Magnox i bartneriaeth busnes addysg Gwlad yr Haf;
- Cyllid ar gyfer rhaglen debyg i'r rhaglen "Education Inspire" a ariannwyd gan EDF mewn perthynas â Hinkley Point C;
- Allgymorth ar gyfer cyflogaeth mewn cymunedau llai breintiedig – mae ardal effaith Hinkley yn cynnwys ardaloedd anghenus gwledig a threfol;
- Cydweithio â champws deheuol y Coleg Niwclear Cenedlaethol yn Cannington;

- Cyllid ar gyfer darparu cyfarpar roboteg arbenigol yng nghanolfan arloesi ynni Gwlad yr Haf i'w ddefnyddio gan fusnesau bach a chanolig eu maint;
- Astudiaethau dichonoldeb ar gyfleoedd ar gyfer ynni'r llanw;
- Cymorth i safleoedd allweddol yn ardal effaith Hinkley e.e. Gravity ger cyffordd 23 yr M5 a Nexus 25 ger cyffordd 23 yr M5 yn ogystal â datblygiadau yng nghyffordd 24;
- Mentrau lleol i hybu cynaliadwyedd, trafnidiaeth a mynediad gwledig;
- Seilwaith yr harbwr o gwmpas Blue Anchor;
- Cyfleoedd i gydweithio â Nuclear South West.

Yn ogystal â'r blaenoriaethau uchod, bydd yr NDA yn parhau i ariannu prosiectau lleol sy'n dod â budd economaidd-gymdeithasol a chymunedol. Rhai enghreifftiau o brosiectau a gafodd gymorth yn ddiweddar yw rhaglen Prentisiaethau Cymunedol Envision, cyllid ar gyfer digwyddiad Stroud Ambitions Careers a darparu offer chwaraeon i dimau ger Hinkley.

**Strategaeth Economaidd-Gymdeithasol i Dde-orllewin Lloegr yn y Dyfodol**

Bydd y strategaeth ddiwydiannol leol sy'n cael ei datblygu ar gyfer ardal Heart of the South West, sydd hefyd yn gysylltiedig â chynlluniau twf economaidd mwy lleol, yn cynnig sail i sicrhau cyd-ddealltwriaeth o'r blaenoriaethau economaidd ar gyfer yr ardal dros amser. Rhai o'r meysydd blaenoriaeth penodol yw cyflogaeth a sgiliau, menter a chyfleoedd strategol.

Cefnogi'r Strategaeth Ddiwydiannol leol yw prif flaenoriaeth yr NDA, a chynigir gweithredu ar y cyd â phartneriaid mewn awdurdodau lleol i gysoni blaenoriaethau ac ymyriadau. Yn ogystal â hyn, bydd yr NDA yn parhau i ystyried ceisiadau am gyllid grant (hyd at £100,000) ar gyfer prosiectau lleol da o faint bach a chanolig sy'n cael eu harwain gan y gymuned. Fodd bynnag, yr unig brosiectau mwy a gefnogir fydd y rheini sy'n ategu'r Strategaeth Ddiwydiannol Leol.

# Adran 3 – Prosiectau unigol

Bydd yr NDA yn parhau i gynnig cyllid grant i brosiectau lleol sy'n gyson â'r strategaethau rhanbarthol a ddisgrifiwyd yn adran 2.

Bydd yr NDA yn darparu cymorth ar gyfer rhaglenni a phrosiectau, a hefyd ar gyfer astudiaethau dichonoldeb, meithrin gallu a gwerthuso. Dros y blynyddoedd nesaf, byddwn yn disgwyl denu lefelau uwch o lawer o gyllid drwy gydweithio â llywodraethau lleol a chenedlaethol.

Mae cyllidebau ar gyfer cymorth economaidd-gymdeithasol wedi'u datganoli ar draws Grŵp yr NDA. Mae saith cyllideb benodol dan sylw:

| **Safle** | **Cyllideb flynyddol ar gyfer cymorth economaidd-gymdeithasol** |
|---|---|
| **Cronfa Caithness a North Sutherland** | £300,000 (taliadau i'w gwneud tan 2023) |
| **Cronfa Gymunedol Copeland** | £1,500,000 (taliadau drwy'r Storfa Gwastraff Lefel Isel) |
| **Dounreay Site Restoration Cyf** | £500,000 |
| **Y Storfa Gwastraff Lefel Isel** | £35,000 |
| **Magnox Cyf** | £1,000,000 |
| **Canolfan gorfforaethol yr NDA** | £2,500,000 (i ategu cyllidebau Magnox a Dounreay yn bennaf) |
| **Sellafield Cyf** | £10,000,000 |
| **Cyfanswm** | £15,835,000 |


Lefelau cyfartalog y gwariant gwirioneddol dros y 6 blynedd diwethaf oedd £11.7 miliwn ac mae'r gwariant blynyddol yn amrywio (er enghraifft, £6.2 miliwn yn 2015/16 a £23.1 miliwn yn 2016/17). Bydd lefel y gweithgarwch a'r gwariant, gan Magnox yn benodol, yn dibynnu ar lefel y gweithgarwch economaidd o gwmpas y safleoedd (er enghraifft, bydd y galw am gyllid economaidd-gymdeithasol yr NDA yn Wylfa yn newid yn ôl y cynnydd ar yr Orsaf Pŵer Niwclear Newydd). Disgwylir y bydd y gwariant yn fwy effeithlon a rhagweladwy ar ôl gwella'r broses a chreu un pwyllgor i oruchwylio'r holl wariant sylweddol.

Nid ydym yn cynnig cyfuno cyllidebau, ond credwn ei bod yn bwysig egluro'r dyraniadau cyllideb ar gyfer y safleoedd. Dylai'r rhain fod fel a ganlyn:

| Lleoliad | Dyraniad Blynyddol |
|---|---|
| **Safleoedd Magnox** | £1.5 miliwn i £2 miliwn (£1 miliwn i £1.5 miliwn gan Magnox a £500,000 gan ganolfan gorfforaethol yr NDA) |
| **West Cumbria** | £11.5 miliwn (£10 miliwn gan Sellafield, £1.5 miliwn gan Gronfa Gymunedol Copeland a £35,000 gan y Storfa Gwastraff Lefel Isel) |
| **Caithness** | £1.8 miliwn i £2.3 miliwn (£1 miliwn i £1.5 miliwn gan ganolfan gorfforaethol yr NDA, £500,000 gan DSRL, £300,000 gan Gronfa Caithness a North Sutherland) |
| **Cyfanswm** | £15,835,000 |

Datblygwyd fframwaith penderfynu ar gyfer ariannu sy'n pennu'r themâu ac egwyddorion allweddol ar gyfer penderfynu ar fuddsoddi. Mae'r fframwaith yn gyson â Strategaeth yr NDA ac yn ein helpu i gyflawni ein cenhadaeth. Rydym wedi datblygu fframwaith sydd wedi'i seilio ar feini prawf y Swyddfa Archwilio Genedlaethol ar gyfer Gwerth am Arian ac sydd wedi'i addasu at ein gwaith mewn cymunedau lleol. Mae angen i holl waith yr NDA gynnig gwerth am arian i'r trethdalwr ac felly rhaid dangos ei fod:

- **Yn ddarbodus** – defnyddio'r lleiaf posibl o adnoddau i gyflawni canlyniadau penodol;
- **Yn effeithiol** – y berthynas rhwng allbynnau, e.e. gwasanaethau, a'r adnoddau a ddefnyddir i'w cynhyrchu;
- **Yn effeithlon** – i ba raddau y mae'r amcanion wedi'u cyflawni, a'r berthynas rhwng effeithiau arfaethedig a gwirioneddol y gwasanaeth dan sylw.




**Ffigur 1 – Fframwaith penderfynu'r NDA ar gyfer ariannu prosiectau**

## Egwyddorion a themâu

Yr egwyddorion a themâu yw:

- **Economïau cydnerth –** yr NDA a busnesau'n rhoi'r gallu i greu a chynnal yr amodau ar gyfer adeiladu cyfoeth lleol, twf cynhwysol yn yr allbwn economaidd lleol, gwell cynhyrchiant a thwf sylweddol mewn is-sectorau economaidd allweddol;
- **Cymunedau sy'n ffynnu –** targedu adnoddau, rhaglenni buddsoddi ac ymyriadau ar weithgareddau sy'n creu'r effaith gymdeithasol fwyaf ac yn gwella cynaliadwyedd ariannol sefydliadau cymunedol;
- **Incymau cynaliadwy –** gwella mynediad at waith a hybu dyheadau i weithio drwy raglen effeithiol ar gyfer addysg, sgiliau a datblygiad personol a gweithgareddau i hybu cyflogadwyedd;
- **Twf cynaliadwy** mewn hinsawdd sy'n newid, gan adlewyrchu pwysigrwydd cynyddol yr agenda ar yr hinsawdd a cheisio sicrhau mantais economaidd,

gymdeithasol a chystadleuol i’n cymunedau niwclear drwy ei integreiddio â’n gweithgareddau o ddydd i ddydd a’n hymyriadau economaidd-gymdeithasol.

Drwy ein **swyddogaeth darparu grantiau** rydym yn canolbwyntio ar y canlynol:

- **Effaith –** sylw i ganlyniadau, defnyddwyr gwasanaethau a chymunedau, nid allbynnau, prosesau neu fewnbynnau yn unig;
- **Blaenoriaethau** – canolbwyntio ar ganlyniadau sy’n flaenoriaethau yn nhermau dadansoddiad o’r anghenion cyhoeddus mwyaf a blaenoriaethau’r grŵp llywodraethu;
- **Edrych i’r tymor hir** – gwella a chydbwyso costau oes gyfan a rheoli costau;
- **Gwella effeithlonrwydd darparwyr** – buddsoddi yng ngallu darparwyr, gwneud defnydd o gystadleuaeth, astudiaethau Gwerth am Arian.

Wrth ystyried llywodraethu yn y dyfodol, bydd ein holl fusnesau yn gwahaniaethu rhwng prosiectau o wahanol faint er mwyn sicrhau bod y rheolaethau’n gymesur:

- Grantiau bach o hyd at £1,000;
- Grantiau canolig o £1,000 hyd at £100,000;
- Grantiau mawr o fwy na £100,000.

Mae rhagor o fanylion yn ddogfen ganllaw i ymarferwyr.

**Casgliadau**

Dros y blynyddoedd nesaf, bydd nifer o newidiadau pwysig mewn gwaith datgomisiynu niwclear yn y DU.

Ar ein safle mwyaf, Sellafield, mae uwchgynllun uchelgeisiol ar waith i ad-drefnu’r safle. Bydd y gweithgarwch ar y safle yn cael ei resymoli ac mae strategaeth bwysig ar gyfer darparu llety y tu allan i’r safle. Y safle hwn fydd un o’r safleoedd adeiladu mwyaf yn Ewrop, a bydd angen adeiladu nifer mawr o gyfleusterau o’r newydd i storio gwastraff a deunyddiau niwclear. Mae’r NDA yn adolygu ei ddull o ddatgomisiynu safleoedd Magnox ac yn edrych ar ei rôl o ran helpu i ddatgomisiynu gorsafoedd AGR (sy’n eiddo i EDF energy) yn y dyfodol. Disgwylir y bydd y gwaith datgomisiynu ar safle Dounreay yn dod i ben tua 2030-35 ac mae angen paratoi’n gyflymach at arallgyfeirio’r economi leol a chynorthwyo ein gweithlu.

Mae sail resymegol gadarn i waith adfywio economaidd yr NDA o ran busnes. Mae economïau a chymunedau lleol iach yn beth da ar gyfer gwaith datgomisiynu, ac mae datgomisiynu yn cynnig cyflogaeth a chyfleoedd economaidd o ansawdd da. Gall ysgolion a cholegau lleol fanteisio ar ein galw am weithwyr crefftus er mwyn

darparu gwell gwasanaethau i'r gymuned gyfan. Mae'r hwb i'r gadwyn gyflenwi yn cynyddu cystadleuaeth, cynhyrchiant a chyfleoedd i bawb.

Mae'r cynlluniau hirdymor sydd gan ein partneriaid yn Llywodraeth Cymru a Llywodraeth yr Alban, mewn awdurdodau lleol a sefydliadau datblygu economaidd (fel Highlands and Islands Enterprise, Scottish Enterprise a'r Partneriaethau Cyflogaeth Lleol yn Lloegr) yn rhai sy'n strwythuredig ond yn ddigon hyblyg i ganiatáu i ni integreiddio â'u gwaith. Wrth ymgynghori ar y strategaeth hon, daeth yn amlwg bod gwir awydd i greu rhagor o gysylltiadau ym maes addysg a sgiliau. Mae awydd hefyd i gydweithio ar ailddefnyddio tir ac asedau'r NDA. Mae rhagor o gyfleoedd ym maes ynni carbon isel, yn cynnwys ynni adnewyddadwy ac ynni niwclear, ym maes arloesi ac mewn seilwaith. Ac mae meysydd lle bydd yr NDA yn gallu helpu'r sefydliadau hyn i fanteisio i'r eithaf ar y cyfleoedd ariannu sydd ar gael er mwyn sicrhau trawsnewid ac arallgyfeirio'r economi.

Mae angen newid ein ffordd o weithio. Mae adborth gan bartneriaid a'n profiad ein hunain yn dangos nad oes capasiti gan bartneriaid bob amser i droi amcanion lefel uchel yn brosiectau ymarferol. Gellir deall hyn – ni fydd awdurdodau lleol na Phartneriaethau Cyflogaeth Lleol yn neilltuo adnoddau dim ond yn y gobaith y bydd yr NDA yn gallu cefnogi rhyw brosiect neu'i gilydd. Felly mae angen i'r NDA a busnesau roi rhywfaint o amser ac adnoddau at helpu partneriaid lleol i ddatblygu achosion busnes. Byddwn yn meithrin ein gallu ein hunain i gyfrannu at brosiectau mawr a rhannu arbenigedd a phrofiad ar draws ein safleoedd.

Mae hyn yn neilltuol o bwysig bellach gan fod cynghorau lleol yn rhag-weld y bydd cynnydd sylweddol mewn cyllidebau cyfalaf (er enghraifft, drwy'r Gronfa Ffyniant Gyffredin, adfywio canol trefi, adfywio cymunedau'r arfordir, a rhaglenni BEIS ar gyfer ynni carbon isel).

Ochr yn ochr â'r strategaeth hon, bydd yr NDA yn parhau i gynnal astudiaethau rheolaidd a gwaith economaidd i gyfrannu at strategaethau (e.e. yr astudiaeth economaidd ddiweddar o safleoedd Magnox). Byddwn yn dal ati â'n dull penderfynu datganoledig ar gymorth grant, ond yn cyflwyno mwy o safoni, fel dull cyffredin o redeg gweithdrefnau, penderfynu a llywodraethu, yn cynnwys hynny ar gyfer ariannu rhaglenni a phrosiectau.

Yn olaf, yn y blynyddoedd diwethaf mae'r NDA wedi ymdrechu i ddarparu mwy o ddata a thryloywder ynghylch y prosiectau a gafodd gymorth ganddo ac mae'r holl wybodaeth hon ar gael ar wefan gov.uk yn. Byddwn yn parhau i sicrhau tryloywder er mwyn caniatáu craffu priodol ar ein gwaith, ond byddwn hefyd yn ceisio darparu gwell gwybodaeth am y canlyniadau a'r buddion a geir drwy ein Strategaeth Economaidd-Gymdeithasol newydd.